

## **ARAITH "TYNGED YR YSGOLION" - MAWRTH 1af, YSGOL GLAN Y MÔR**

Diolch am y cyfle a'r fraint i siarad mewn cyfarfod mor bwysig i ffyniant Cefngwlad Cymru, sef y pwnc dan deitl mawreddog y ddogfen "Adrefnu Ysgolion Cynradd y Sir" a'r cynffon eironig "er lles Addysg holl blant Gwynedd."

Hoffwn ddatgan ar gychwyn y sylwadau hyn na ellir gweithredu rhai agweddau yn y cynllun heb gytundeb rhieni, llywodraethwyr ac athrawon ysgolion y Sir.

Fel y gwŷr y mwyafrif ohonoch bues yn Arweinydd y Gwasanaeth Addysg yng Ngwynedd tan fis Hydref diwethaf. Mae Gwilym Owen yn ei golofn dreiddgar a phryfoclyd yn y Cymro yn gofyn rhai cwestiynau y tybiais i mi eu hateb droeon ond gwnaf unwaith eto er eich mwyn chi ac yntau os ydi o'n gwranddo.

Do mi es i'r mwyafrif o'r cyfarfodydd ymgynghori dros gyfnod o dair blynedd. Gwir y gair i'r ymateb fod yn bur gymysg gan amrywio o ardal i ardal. Croeso ar y cyfan yn nalgylch y Tywyn a Bangor. Croeso amodol mewn ardaloedd eraill megis Penllyn ond fawr ddim croeso ym Mhen Llŷn, dalgylchoedd Glan y Môr, Eifionydd, Dyffryn Nantlle a Syr Hugh Owen.

I mi ystyr y gair ymgynghori yw gwranddo ar lais cymunedau trwy'r rhieni a'r llywodraethwyr a fu'n bresennol yn y cyfarfodydd.

Cefais sioc aruthrol pan gyflwynwyd y cynllun i mi a thua hanner dwsin o gynghorwyr eraill fis Hydref diwethaf. Yn hytrach na gwranddo 'roedd y swyddogion wedi neidio i'r pegwn eithaf arall. Anodd fyddai dychmygu cynllun mwy dinistriol ac eithafol.

Hoffwn bwysleisio yma fore heddiw na chefais i, yr Arweinydd Addysg roi dim mewnbwn i'r cynllun – dim o gwbl.

Cafwyd dau gyfarfod wedyn o ddadlau ynglŷn â'r cynnwys. Ond doedd dim ildio o unrhyw du. 'Roedd pedwar o'r cynghorwyr yn croesawu'r cynllun â breichiau agored a dau yn ei wrthwynebu yn ffyrnig.

Cefais y dewis wedyn o arwyddo'r cynllun neu wrthod. Hyd y gwn i dwi erioed wedi arwyddo dogfennau yr wyf yn anghytuno â'u cynnwys.

Felly gwrthodais arwyddo'r cynllun gwallgo' ac ymddiswyddo.

Y peth sy'n fy mhoeni i fwyaf yw mai Plaid Cymru sy'n cael y bai ar lawr gwlad am gynnwys y ddogfen. Dywedodd Maldwyn Lewis mewn erthygl yn y Cymro yr wythnos diwethaf galon y gwir "Swyddogion 'galluog a phrofiadol' sydd wedi paratoi'r ddogfen a'r un fyddai eu hargymhellion dim ots pa blaid oedd yn y mwyafrif."

Y drafferth fawr ydi fod Arweinydd y Cyngor a gŵr go amlwg Dafydd Iwan yn mynd o gwmpas y wlad efo sêl genhadol gan eu bod wedi llyncu'r ddogfen yn hollol ddihalen.

Hoffwn ddatgan yma fore heddiw fod 12 o Gynghorwyr Plaid Cymru wedi pleidleisio dros wrthod y ddogfen a nifer yn ôl a ddeallaf wedi difaru yn fawr iddynt wrando ar eu harweinydd.

Loes calon i mi yw gweld cenedlaetholwyr da wedi ymrannu yn erbyn ei gilydd.

Y gwir amdani yw nad oes gan Plaid Cymru bolisi ar y mater tyngedfennol hwn.

Nid polisi Plaid Cymru ydi'r ddogfen ond dogfen drafod Swyddogion Cyngor Gwynedd.

Cysylltais penwythnos diwethaf ag Elfyn Llwyd, Arweinydd Seneddol Plaid Cymru, a chefais yr ateb hwn gyda chais imi ddarllen rhannau o'i lythyr.

Yn gyntaf mae'n ymddiheuro am fethu bod yn bresennol.

*"Rwyf hefyd yn ymwybodol bod Llywodraeth y Cynulliad yn gorfodi pob Cyngor, pob Awdurdod Addysg, yng Nghymru i edrych ar yr holl gwestiwn o "lefydd gwag", sydd ganddynt.*

*Wedi dweud hynna rwyf yn mawr obeithio y bydd yr ymgynghoriad sydd ar droed ar hyn o bryd yn ymgynghoriad ystyrllon, llawn a phwyllog, a fydd yn arwain at newidiadau yn y cynlluniau gwreiddiol oedd wedi'u datgan gan y Cyngor.*

*Mae'n amlwg i mi ei bod yn amhosib cadw'r statws cwo, ond mae'n amlwg i mi hefyd bod yna achosion cryfion iawn i gadw rhai ysgolion yn agored, serch yr hyn sydd yn cael ei ddweud gan swyddogion Cyngor Gwynedd.*

*'Rwyf yn mawr obeithio y bydd yr ymgynghoriad diweddaraf yma yn arwain at newidiadau yn y cynlluniau a fydd yn galluogi y Cyngor i gadw rhai o'r ysgolion a oedd gynt o dan fygythiad.*

*Wedi dweud hynny 'rwyf yn ail ddatgan fy safbwynt bod yn rhaid bod yn hynod o ofalus ac ail agor y trafodaethau hefo meddwl agored er mwyn cael ymgynghoriad pwrpasol a chywir."*

Dileu llefydd gweigion. Dydi ffederaleiddio y peth sy'n poeni fwyaf ar y Cynulliad ddim yn mynd i ddileu unrhyw le gwag.

A ffederaleiddio sydd wedi cynddeiriogi fwyaf ar rieni a llywodraethwyr Llŷn ac Eifionydd beth bynnag.

Mae plant y ferch yn byw yng Nghaernarfon, 3 o'r 5 yn mynd i Ysgol y Gelli. Mae 250 o blant yno ac maent yn cael addysg ardderchog.

Ond yn ychwanegol mae toreth o gyfleusterau eraill ar garreg y drws.

Canolfan Denis

Y Galeri a'r holl adnoddau theatrig

Pwll Nofio

Archifdy

Llyfrgell

a nifer fawr o glybiau pêl-droed, rygbi ac ati.

Faint o'r pethau hyn sydd ar gael yn Nhudweiliog, Pentreuchaf, Llangybi a sawl Llan arall?

(Rhaid i'r Cyngor fod yn barod i fuddsoddi mwy yn yr addysg honno er lles addysg holl blant Gwynedd). Ond beth am y busnes ffedelareiddio ma?

Ffederaleiddio - pedair ysgol bur hyfyw.

Abererch	63 o blant
Llangybi	87
Bro Plennydd	82
Chwilog	46

Bwriedir adeiladu nifer fawr o dai yn Chwilog ac Abererch. Mae'r rhain gryn filltiroedd oddi wrth ei gilydd. Beth fydd y Goruwch Bennaeth yn ei wneud ond gwibio o ysgol i ysgol yn delio â phroblemau a cheisio dod i adnabod y disgyblion?

Beth am y cylch rydw i'n byw ynddo?

Llanbedrog	71
Foel Gron	52
Sarn Bach	47

A chau Abersoch sydd efo ugain o blant. I mi sydd efo rhywfaint o brofiad o ddysgu plant. Hanfod addysg dda yw adnabod disgyblion ac mae hynny yn eithriadol o wir am yr oedran cynradd.

Mi gafodd rhyw hanner dwsin ohonon ni gynghorwyr a thua hanner dwsin o benaethiaid cynradd gyflwyniad gan Bennaeth Abersoch tua dwy flynedd yn ôl. Dyma bentref sy'n brwydro i gadw ei Gymreictod ac mae i'r ysgol ar fy ngwir rôl allweddol i'w chwarae yn hyn.

Y cwestiwn sylfaenol ydi beth yw'r ffordd ymlaen?

Dim ond un ffordd.

Rhaid i Arweinydd y Cyngor ac Aelod Arweiniol y Gyfadran Ddatblygu gymryd cam eglur yn ôl i ymbwyllo. Wedyn datgan fod y cyngor oherwydd ymateb negyddol y mwyafrif o'r rhieni a'r llywodraethwyr yn rhoi sylw teg.

- (a) I'r ymgynghoriad gwreiddiol.
- (b) I gynnwys yr ymatebion ymgynghori.
- (c) Byddant yn rhoi ystyriaeth lawn i ddulliau eraill o drefnu ysgolion fydd yn cynnwys clystyru a chydweithio ffurfiol.

A rhaid gwneud hyn yn yr wythnosau nesaf, h.y. rwan hyn.